

Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn 13 Rhagfyr 2001

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.

[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

Cynnwys

- 1 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau
- 2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau

Cynlluniau Gwariant Awdurdodau Lleol

C1 Cynog Dafis: Pa drefniadau sy'n bod i sicrhau bod awdurdodau lleol yn cadw at eu cynlluniau gwariant? (OAQ14674)

Y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau (Edwina Hart): Mater i awdurdodau lleol yw pennu eu cyllidebau eu hunain, gan edrych ar y cyllidebau tybiedig a bennwyd gan y Cynulliad. Wedi iddynt bennu eu cyllidebau, mater i'r awdurdodau eu hunain, gyda'u harchwilwyr, yw sicrhau eu bod yn cadw atynt.

Atebwyd cwestiynau 2 i 10 yn y Cyfarfod Llawn.

Gweithredu Trosglwyddiad Stoc Tai

C11 Christine Chapman: Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog neu gynrychiolwyr y Gweinidog yn y Cynulliad wedi'u cynnal gydag awdurdodau lleol am weithredu trosglwyddiad stoc tai? (OAQ14663)

Edwina Hart: Yn ddiweddar, cadeiriais seminar i arweinwyr gwasanaethau gweithredol awdurdodau lleol lle trafodwyd materion yn ymwneud â throsglwyddo stoc tai. Mae fy swyddogion yn cwrdd yn rheolaidd â phrif swyddogion tai awdurdodau lleol. Yn ogystal, mae fy swyddogion yn cael trafodaethau rheolaidd ag awdurdodau lleol unigol, sy'n edrych ar y dewisiadau ar gael iddynt ar gyfer adnewyddu stoc.

Y Rhaglen Rhoi Cymunedau'n Gyntaf

Q12 Christine Chapman: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar hynt y rhaglen Rhoi Cymunedau'n Gyntaf? (OAQ14676)

Edwina Hart: Yn dilyn diwedd y broses ymgynghori ym mis Mawrth, cyhoeddais ar 18 Mehefin yr ardaloedd i'w cynnwys yn Rhoi Cymunedau'n Gyntaf. Yng nghyfarfod y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai ar 24 Hydref 2001, cyhoeddais ardaloedd ychwanegol i'w cynnwys yn y rhaglen. Erbyn hyn, mae'r rhaglen yn delio â'r 100 ward mwyaf difreintiedig a nodwyd gan fynegai amlamddifadedd Cymru. Mae hefyd yn targedu 32 is-ward pellach lle gwelir amddifadedd sylweddol a 10 cymuned o ddiddordeb neu lle ceir cynigion creadigol, sy'n cynnwys wardiau pellach. Bu modd i'r ardaloedd hyn wneud cais am gyllid ar gyfer amrediad o weithgareddau paratoadol ers dechrau Gorffennaf.

Cyhoeddwyd canllawiau rhaglen Rhoi Cymunedau'n Gyntaf ar ddiwedd Medi 2001 yn dilyn nifer o sesiynau gyda grwpiau ffocws. Mae cymunedau cymwys yn gweithio ar hyn o bryd ar y broses o ddatblygu cynlluniau gweithredu cymunedol.

Yr wyf eisoes wedi cymeradwyo cyfanswm gwariant o bron i £2.2 miliwn i gefnogi amrywiaeth o gyrff fydd yn ymwneud â chyflwyno'r rhaglen.

Cyhoeddusrwydd i'r Rhaglen Rhoi Cymunedau'n Gyntaf

C13 Brian Gibbons: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar yr hyn sy'n cael ei wneud i roi cyhoeddusrwydd i'r rhaglen Rhoi Cymunedau'n Gyntaf? (OAQ14687)

Edwina Hart: Mae strategaeth gyfathrebu yn cael ei pharatoi ar hyn o bryd. Fodd bynnag, yr wyf yn rhoi cyhoeddusrwydd i'r rhaglen Rhoi Cymunedau'n Gyntaf mewn sawl ffordd. Yn gyntaf, mae datganiadau i'r wasg yn cael eu cyhoeddi'n rheolaidd ar adegau pwysig. Yn ail, mae'r tîm Rhoi Cymunedau'n Gyntaf yn gwneud cyflwyniadau cyson i nifer o grwpiau yng Nghymru a'r DU. Yn drydydd, cyhoeddir y newyddion diweddaraf yn fisol i gyrff ac unigolion allweddol ar gynnydd y rhaglen.

Yn olaf, bydd taflen wybodaeth i'r cyhoedd yn cael ei chyhoeddi cyn hir. Fe'i cylchredir yn eang i wella dealltwriaeth pobl leol.

Rôl Cymdeithasau Tai mewn Darparu Tai Cymdeithasol

C14 Elin Jones: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar rôl cymdeithasau tai mewn darparu tai cymdeithasol yng Nghymru? (OAQ14716) [W]

Edwina Hart: Gall landlordiaid cymdeithasol cofrestredig helpu awdurdodau lleol i fodloni blaenoriaethau eu hanghenion tai trwy ddarparu tai newydd neu dai wedi'u hadnewyddu i'w rhentu neu i'w prynu am bris isel yn ôl y blaenoriaethau a bennir gan yr awdurdodau lleol. Ni roddir grantiau iddynt ar gyfer unrhyw gynlluniau nad ydynt yn ymddangos mewn rhaglenni datblygu y cytunir arnynt gydag awdurdodau lleol.

Cysylltu â Swyddogion Llywodraeth Leol

C15 Owen John Thomas: Sut mae awdurdodau lleol yn gofalu bod Aelodau'r Cynulliad yn gallu cysylltu'n rhwydd â swyddogion llywodraeth leol? (OAQ14699)

Edwina Hart: Dylech ofyn y cwestiwn hwnnw yn uniongyrchol i awdurdodau lleol.

Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd

Fersiwn Diwygiedig Nodyn Cyngor Technegol 15 (1998)

C1 David Davies: Pryd bydd fersiwn diwygiedig nodyn cyngor technegol 15 (1998) yn cael ei gyhoeddi yng Nghymru? (OAQ14630) *Trosglwyddwyd ar gyfer ateb ysgrifenedig.*

Y Gweinidog dros yr Amgylchedd (Sue Essex): Bydd fersiwn diwygiedig nodyn cyngor technegol 15 yn cynnwys methodoleg sy'n seiliedig ar risg, a fydd yn cynorthwyo cynllunwyr i ddeall effeithiau risg mewn ardaloedd llanw ac afonol ac a fydd yn ceisio cysylltu risg llifogydd â defnydd tir a ganiateir. Bwriedir cwblhau'r gwaith ymchwil sy'n sail i'r arolwg yng nghanol Ionawr, a chyhoeddir drafft y TAN ar gyfer ymgynghori cyn gynted ag y bo'n ymarferol wedi hynny.

Atebwyd cwestiynau 2, 3, 5 a 6 yn y Cyfarfod Llawn; tynnwyd cwestiynau 4 (OAQ14639) a 7 (OAQ14654) yn ôl.

Papur Gwyrdd ar Gynllunio

C9 Janet Ryder: Pa rôl y mae'r Gweinidog yn ei ragweld i Gynulliad Cenedlaethol Cymru o ran y Papur Gwyrdd ar gynllunio? (OAQ14646)

Sue Essex: Yr wyf yn ymwybodol o'r ffaith fod yr Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth, Cynllunio a'r Rhanbarthau wedi bod yn ystyried newidiadau posibl i'r system gynllunio yn Lloegr. Deallaf ei fod yn bwriadu cyhoeddi Papur Gwyrdd cyn y Nadolig. Bwriadaf gyhoeddi papur ymgynghori ar wahân yng Nghymru yn gynnar yn y flwyddyn newydd.

Ffordd Liniaru yn Nhalgarth

C10 Nick Bourne: Pa gynrychioliadau y mae'r Gweinidog wedi'u cael ynghylch ffordd liniaru yn Nhalgarth? (OAQ14643)

Sue Essex: Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb a roddais i'ch cwestiwn ysgrifenedig WAQ14377 ar 22 Tachwedd.

Arferion Rheoli Gwastraff

C11 Richard Edwards: A all y Gweinidog wneud datganiad ar y gwersi y gallai Cymru'u dysgu, yn dilyn ei hymweliad diweddar â Sweden er mwyn ystyried arferion rheoli gwastraff? (OAQ14656)

Sue Essex: Y prif bethau a ddysgais ar ymweliad cynhyrchiol â Sweden oedd cadarnhau pwysigrwydd rhannu gwastraff yn ei ffynhonnell, a'r angen am addysg ac ymwybyddiaeth ar y cyd â darparu'r seilwaith ffisegol ar gyfer ailgylchu.

Tynnwyd cwestiwn 12 (OAQ14633) yn ôl.

Ailgylchu mewn Ysgolion

C13 Rosemary Butler: Pa fesurau y mae'r Gweinidog wedi'u rhoi ar waith er mwyn annog ailgylchu mewn ysgolion? (OAQ14661)

Sue Essex: Mae'r Cynulliad yn paratoi canllawiau ar ddatblygu strategaethau rheoli gwastraff awdurdodau lleol. Mae'n cydnabod pwysigrwydd addysg ar wastraff, ac yn annog awdurdodau lleol i hyrwyddo dulliau lleihau gwastraff, ailgylchu ac atal sbwriel mewn ysgolion a cholegau, er enghraifft, trwy ymgyrch 'Cadw Cymru'n Daclus' Eco-Ysgolion ac ymgyrch 'Gall Pob Ysgol Ailgylchu' Cylch.

Mesurau Atal Llifogydd yng Ngogledd Cymru

C14 Eleanor Burnham: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y cyllid a ddarparwyd ar gyfer mesurau atal llifogydd yng ngogledd Cymru? (OAQ14627)

Sue Essex: Mater i awdurdodau gweithredu lleol yw hwn yn bennaf, naill ai yn uniongyrchol neu drwy gefnogi gweithgareddau pwyllgorau lleol ar atal rhag llifogydd.

Cynnal Ffyrdd yng Ngogledd Cymru

C15 Alison Halford: Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i sicrhau bod y gwaith a gynhelir i wella a chynnal ffyrdd yng ngogledd Cymru yn rhoi gwerth am arian? (OAQ14635)

Sue Essex: Asiantau cefnffyrdd y Cynulliad sy'n ymgymryd â'r gwaith o gynnal a chadw cefnffyrdd yn y gogledd, sef Asiantaeth Cefnffyrdd y Gogledd Ddwyrain ac Asiantaeth Gefnffyrdd y Gogledd Orllewin. Mae perfformiad yr asiantau hyn yn cael ei adolygu'n barhaus gan swyddogion. Yn ogystal, mae ymarfer arbennig yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i ddatblygu dangosyddion perfformiad ac i geisio sicrhau effeithlonrwydd yn nhrefn y rhaglen adnewyddu a chynnal a chadw.

Yn ddiweddar, cafwyd cyhoeddiad ynglyn â £25 miliwn mewn grantiau arbennig i wella ffyrdd lleol strategol. Bydd swyddogion y Cynulliad yn ymgymryd â gwaith arolygu i sicrhau bod y gwaith a wneir yn briodol a'i fod yn rhoi gwerth am arian.